Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Preseli
# Crymych
# Preseli
# Sir Benfro
# SA41 3QH

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/02/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Y Preseli yn ysgol gyfun gymunedol, benodedig ddwyieithog, i ddisgyblion 11-18 oed. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Sir Benfro. Mae ynddi 906 o ddisgyblion o'i gymharu â 958 adeg yr arolygiad diwethaf (2008) ac mae 162 yn y chweched dosbarth.

Lleolir yr ysgol ym mhentref Crymych yng ngogledd y sir ac mae'n gwasanaethu dalgylch eang gwledig sydd yn cynnwys trefi Hwlffordd, Penfro a Dinbych Y Pysgod.

Yn gyffredinol, daw disgyblion o ardaloedd nad ydynt yn ffyniannus nac ychwaith dan anfantais economaidd. Mae 4.9% o ddisgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim (4.7% treigl 3 blynedd). Mae'r ffigwr hwn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol o 17.1%.

Daw lleiafrif o'r disgyblion (tua 43%) o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gartref ac mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl. Caiff pob disgybl ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth addysgu ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod llawn o allu. Mae 21% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgu ychwanegol yr ysgol, gydag 1% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Chwefror 2009. Mae'r tîm arwain yn cynnwys pennaeth, dirprwy bennaeth, dau bennaeth cynorthwyol ac uwch reolwraig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Preseli yn 2016-17 yw £4,405. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Sir Benfro yw £5,616 a'r lleiafswm yw £4,309. Mae Ysgol Y Preseli yn y seithfed safle o'r wyth ysgol uwchradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- perfformiad ar y trothwy lefel 2 gan gynnwys naill ai'r Gymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod naill ai'n unol â, neu'n uwch na, deilliannau a fodelwyd mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf
- disgyblion, yn y rhan fwyaf o wersi, yn ymgymryd â'u gwaith yn aeddfed, yn arddangos lefelau uchel o gymhelliant ac yn canolbwyntio'n dda iawn wrth ddyfalbarhau i weithio
- cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gyson uchel
- bron pob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog
- yr ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys ac eang a darpariaeth gynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol
- bron pob athro yn meithrin perthynas waith gynhyrchiol gyda'r disgyblion ac mae llawer yn cynllunio'n ofalus er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion ac adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth
- yr ysgol yn olrhain cynnydd academaidd a chymdeithasol disgyblion yn ofalus; fodd bynnag, nid yw ychydig o'r cynlluniau datblygu adrannol yn cynnwys targedau sydd yn ddigon uchelgeisiol er mwyn sicrhau bod disgyblion mwy abl a thalentog yr ysgol yn cyflawni eu potensial
- gan y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at yr ysgol a bod ganddynt gyfleoedd rheolaidd i gyfrannu tuag at ei datblygiad

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth strategol, glir sydd yn gosod ffocws pendant ar godi safonau a chyfoethogi profiadau dysgu disgyblion
- yr ysgol yn coleddu diwylliant o arweinyddiaeth ddosranedig effeithiol ymhlith y staff
- yr ysgol yn ymateb yn rymus i flaenoriaethau cenedlaethol
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o waith yr ysgol ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn llwyddiannus
- gan yr ysgol brosesau trylwyr er mwyn sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwelliant

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod deilliannau cyfnod allweddol 4 yn gyson uchel

A2 Sicrhau bod disgyblion mwy abl a thalentog yn cyrraedd eu potensial

A3 Sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei dyletswyddau statudol yn llawn

A4 Sicrhau bod uchelgais yr ysgol yn cael ei hadlewyrchu yn y targedau a osodir

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y prif ddangosyddion wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Yn dilyn gostyngiad yn 2015, perfformiad 2016 yw'r cryfaf yn hanes diweddar yr ysgol. Mae perfformiad ar y trothwy lefel 2 gan gynnwys naill ai'r Gymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod naill ai'n unol â, neu'n uwch na, deilliannau a fodelwyd mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella'n raddol dros y pedair blynedd diwethaf ac, ar y cyfan, mae'n gyson ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y dangosydd sydd yn cynnwys pump gradd TGAU A*-A hefyd yn unol â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae perfformiad y disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar y trothwy lefel 2 gan gynnwys naill ai'r Gymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Ar y cyfan, mae perfformiad y grŵp hwn naill ai'n well neu'n unol ag ydyw mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad bechgyn ar y trothwy lefel 2 gan gynnwys naill ai'r Gymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi cynyddu'n arwyddocaol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2016, mae eu perfformiad yn sylweddol well na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau dros y pedair blynedd diwethaf.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae pob disgybl yn parhau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn y dangosydd pwnc craidd, bu tueddiad o gynnydd yn y cyfnod diweddar. Mae'r perfformiad hwn wedi bod yn uwch nag ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Ym Mlwyddyn 13, mae pob disgybl wedi cyflawni trothwy lefel 3 mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae cyfran y disgyblion sydd yn llwyddo i ennill tair gradd A*-C ynghyd â'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi cynyddu'n flynyddol er 2013 ac mae'n sylweddol uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg a'r cyfartaledd cenedlaethol. Dros yr un cyfnod, fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion sydd yn cyflawni tair gradd A*-A wedi gostwng ac, erbyn 2016, mae'r gyfran hon yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg a Chymru.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn ymgymryd â'u gwaith yn aeddfed. Maent yn arddangos lefelau uchel o gymhelliant ac yn canolbwyntio'n dda iawn wrth ddyfalbarhau i weithio'n annibynnol ar ystod o dasgau amrywiol. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n llwyddiannus mewn grwpiau i drafod ac i wella eu gwaith.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Yn y gwersi hyn, maent yn galw i gof wybodaeth a dysgu blaenorol yn gyflym cyn bwrw ati i ddatblygu eu medrau pynciol ymhellach yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau i gyd-destunau newydd yn llwyddiannus. Maent yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau meddwl ac yn ymateb yn aeddfed a chadarnhaol i gyfleoedd i fynegi barn.

Mewn ychydig o achosion, o ganlyniad i ddiffygion cynllunio gan yr athrawon, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n rhwydd ac yn bwrpasol. Maent yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig rhesymegol gan fynegi eu syniadau yn eglur. Mae gan y rhan fwyaf afael gadarn ar gystrawen. Maent yn datblygu geirfa bynciol eang a chyfoethog. Mae ychydig o ddisgyblion yn creu darnau ysgrifenedig gwreiddiol a chrefftus sydd yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o dechnegau arddull. Fodd bynnag, mae gwaith lleiafrif o ddisgyblion yn cynnwys gwallau sillafu a threiglo. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau trawsieithu yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn uchel yn hyderus ac yn ystyrlon. Maent yn ymateb yn ddeallus i ddeunyddiau darllen amrywiol. Dangosant fedrau ymchwil effeithiol a llwyddant i ddarllen a chywain gwybodaeth er mwyn cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Fodd bynnag, nid yw uwch fedrau darllen ychydig o ddisgyblion yn ddigon cryf. Nid ydynt, er enghraifft, yn dadansoddi testunau nac yn egluro effaith technegau arddull yn ddigon manwl.

Mae bron pob disgybl yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Amlygant fedrau siarad hyderus yn y Gymraeg a Saesneg. Mae eu hiaith lafar Gymraeg yn arddangos lefel uchel o gywirdeb, geirfa gyfoethog ac elfennau o'r dafodiaith leol.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd cadarn a dealltwriaeth o reolau elfennol mathemateg. Maent yn cymhwyso technegau cyfrifo pwrpasol a chywir mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Maent yn trin data yn hyfedr, er enghraifft drwy lunio graffiau ac adnabod patrymau ynddynt.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymarfer eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfrifiadurol (TGCh) yn briodol mewn llawer o bynciau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud datblygiad cynyddol yn eu medrau TGCh yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

### Lles: Rhagorol

Mae safonau uchel iawn o ran lles disgyblion yn agwedd nodedig ar fywyd yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn adrodd bod yr ysgol yn ymdrin yn effeithiol â'r achosion prin iawn o fwlian neu aflonyddwch. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n iach a heini ac mae llawer yn cyfranogi'n rheolaidd mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon a ffitrwydd.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi bod yn gyson uchel ac yn unol â deilliannau wedi'u modelu ers tair blynedd. Mae nifer yr absenoldebau cyson yn isel ac wedi lleihau'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae ymddygiad ardderchog bron pob disgybl yn nodwedd arbennig. Maent yn gwrtais a dangosant barch tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae eu medrau cymdeithasol yn gaboledig. O ganlyniad, mae nifer y gwaharddiadau ac achosion o gamymddwyn yn isel iawn.

Mae llais y disgybl yn chwarae rhan flaenllaw yng ngwaith yr ysgol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n werthfawr tuag at benderfyniadau trwy waith y cyngor ysgol a thrwy leisio barn trwy holiaduron a fforymau barn. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi dylanwadu ar welliannau i gyfleusterau a'r wisg ysgol a chyfrannu at ddatblygu'r strategaeth dysgu ac addysgu. Mae'r disgyblion yn cynnal cyfarfodydd y cyngor ysgol yn annibynnol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau trefnu ac arwain. Maent yn sicrhau bod cyswllt cryf rhyngddynt â gweddill y disgyblion trwy gynhyrchu cylchlythyr am eu gwaith a chyfathrebu'n gyson â fforymau blwyddyn.

Mae cyfranogiad disgyblion mewn ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol yn uchel. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau marchogaeth a golff, cystadlaethau gwyddoniaeth a siarad cyhoeddus, bandiau cerddoriaeth amrywiol a llwyddiant mewn chwaraeon ar lefel sirol, genedlaethol a rhyngwladol.

Mae bron pob disgybl yn arddangos balchder angerddol yn eu hysgol a'i chymuned, a dealltwriaeth aeddfed o'u rôl fel dinasyddion cyfrifol. Maent yn gwneud cyfraniadau pwysig i'r gymuned trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau fel y clybiau rotari a ffermwyr ifanc a'r Urdd, a thrwy gasglu symiau sylweddol o arian i elusennau lleol a chenedlaethol.

Nodwedd eithriadol yw parodrwydd bron pob disgybl i weithio'n ddiwyd mewn gwersi a'u dycnwch a'u dyfalbarhad wrth gwblhau gweithgareddau. Maent yn arddangos cymhelliant cryf ac ymagweddau aeddfed. Mae bron pob disgybl yn meddu ar y rhinweddau hanfodol ar gyfer eu bywyd yn yr ysgol a'u dyfodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ymateb i ofynion cenedlaethol a gofynion unigol y disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig arlwy gyfoethog o opsiynau. Mae'r dewisiadau yn cynnwys ystod o gyrsiau galwedigaethol perthnasol sydd yn diwallu dymuniadau'r disgyblion ac anghenion cyflogwyr lleol. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth gynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau dilyniant yn y profiadau dysgu wrth i ddisgyblion drosglwyddo i'r sector uwchradd. Er enghraifft, mae'r prosiect dyniaethau sydd yn digwydd ar y cyd rhwng Ysgol y Preseli a'u hysgolion cynradd partner, yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd disgyblion cyfnod allweddol 3.

Nodwedd arbennig yw'r modd y mae'r ysgol wedi ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. O ganlyniad i gynllunio bwriadus, mae cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Darperir rhaglenni ymyrraeth effeithiol i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i wella eu medrau. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i sicrhau bod disgyblion yn ymarfer eu medrau TGCh ar draws y pynciau.

Darperir cyfleoedd creadigol ac ysgogol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ehangach drwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn elfen nodedig o waith yr ysgol. Mae'r disgyblion yn cael eu trochi yn yr iaith, a thrwy gyfrwng amrywiaeth eang iawn o weithgareddau, caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddathlu eu hiaith a'u hunaniaeth.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol iawn. Mae pwyllgor eco'r ysgol yn weithgar iawn ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gymuned yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae bron pob athro yn meithrin perthynas waith gynhyrchiol gyda'r disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn creu awyrgylch cefnogol lle nad oes ofn ar ddisgyblion wneud camgymeriadau. Mae bron pob athro yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn fodelau iaith da iawn. Maent yn cynllunio'n ofalus ac yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau ysgogol a heriol er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion ac adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mewn ychydig o wersi effeithiol iawn, mae'r athrawon yn cynllunio'n greadigol er mwyn darparu profiadau byrlymus a her uchel iawn i'r disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o bob un o'r disgyblion. Mae'r addysgu yn sicrhau bod y disgyblion yn weithredol yn eu dysgu ac yn eu cymell i roi o'u gorau. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn holi'n gelfydd er mwyn sicrhau cyfleoedd a herio dealltwriaeth pob disgybl. Mae tempo sionc i'r gwersi hyn ac mae'r athrawon yn cynnig cymorth defnyddiol i unigolion neu grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn ddigon gofalus er mwyn ymestyn medrau meddwl disgyblion a'u dealltwriaeth bynciol yn ddigonol. Nid yw'r athrawon yn y gwersi hyn yn enghreifftio'n briodol er mwyn sicrhau dealltwriaeth pob disgybl.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth defnyddiol ac adeiladol ar lafar ac yn ysgrifenedig er mwyn i ddisgyblion wybod sut i wella ansawdd eu gwaith. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae athrawon yn adnabod cryfderau yng ngwaith disgyblion ac yn cynnig targedau defnyddiol er mwyn gwella. Yn y mwyafrif o achosion, mae athrawon yn mynnu bod disgyblion yn ymateb yn briodol i'r rhain. Mewn llawer o bynciau, mae gan ddisgyblion gyfleoedd defnyddiol i hunanasesu ac asesu gwaith cyfoedion.

Mae'r ysgol yn gosod targedau priodol i bob un o'r disgyblion. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd a strategaethau pwrpasol i fynd i'r afael â thangyflawni. Mae adroddiadau interim yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol iawn am gyrhaeddiad yn erbyn targedau ac mae'r adroddiad blynyddol yn rhannu gwybodaeth fanwl a chynhwysfawr i rieni am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae lles disgyblion a'u datblygiad fel unigolion cyflawn, parchus a balch yn greiddiol i waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sydd yn gweithredu'n gydwybodol er budd pob disgybl.

Mae tîm cynnydd a lles yr ysgol yn olrhain yn ofalus a manwl bresenoldeb, ymddygiad a chynnydd academaidd y disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o anghenion unigolion ac maent yn darparu gofal a chefnogaeth bersonol a phwrpasol i bob un. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen gynhwysfawr o gefnogaeth sydd yn ymateb yn effeithiol i anghenion disgyblion penodol. Mae cydweithio effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth hon. Er enghraifft, mae rhaglenni gwerthfawr megis 'Cam Ymlaen' a 'mentora pendant' yn cefnogi disgyblion bregus ac mae darpariaeth fuddiol yr 'Hwb' yn gymorth i ddisgyblion yn dilyn absenoldeb.

Mae rhaglen eang o weithgareddau diddorol a defnyddiol yn hybu datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, ceir gweithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol ar bynciau megis iechyd meddwl a dinasyddiaeth. Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus ac mae amrediad helaeth o gyfleoedd allgyrsiol a thripiau. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth aeddfed o bwysigrwydd bod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas a sut i gadw'n iach. Fodd bynnag, nid yw pob cyfnod boreol yn cynnwys elfen o gyd-addoli.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer rhoi cyngor ac arweiniad i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dyfodol. Mae gweithgareddau buddiol megis ffeiriau gyrfaoedd a nosweithiau opsiwn yn cynnig cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion a'u rhieni. Mae gweithdrefnau llwyddiannus ar gyfer trosglwyddo o'r ysgol gynradd yn sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 7 yn ymgartrefu'n gyflym ac yn ddiffwdan.

Mae darpariaeth gynhwysol ac effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cryf dros amser. Mae cysylltiadau cynhyrchiol gydag uned arbennig Canolfan y Porth yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion y ganolfan a'r ysgol ac yn cyfrannu'n bwysig tuag at ethos cynhwysol yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau gweinyddol ar gyfer cynlluniau addysg unigol yn ddigon cydlynus na thrylwyr.

Mae trefniadau diogelu yn bodloni gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae Ysgol y Preseli yn gymuned hynod gartrefol gydag ethos cynhwysol a gofalgar Cymreig. Mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at yr ysgol a chânt gyfleoedd rheolaidd i gyfrannu tuag at ei datblygiad. Maent yn ymfalchïo'n fawr ynddi ac yn cyfleu'n gryf eu hymdeimlad o berthyn. Mae'r ysgol yn anelu at ddatblygu eu disgyblion yn ddinasyddion cyflawn. Mae perthynas gynhyrchiol yn bodoli rhwng y staff, y disgyblion a'r rhieni. Maent yn cydweithio'n bwrpasol ac yn gefnogol iawn o'i gilydd. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag eu hanghenion. Caiff pob disgybl fynediad teg i'r cwricwlwm ac i weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r adeilad yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol, diogel a chroesawgar. Ceir arddangosfeydd atyniadol o waith disgyblion ar draws yr ysgol sy'n dathlu llwyddiannau ac yn creu amgylchedd symbylus. Mae gan adrannau adnoddau gwerthfawr ac maent yn gweddu i nifer y disgyblion ac i anghenion y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn buddsoddi'n flynyddol mewn caledwedd TGCh priodol er mwyn hybu safonau cyrhaeddiad a medrau'r disgyblion. Mae gan yr ysgol feysydd chwarae helaeth ac, ar y cyfan, mae'r adeiladau yn addas ar gyfer nifer y disgyblion a'r gweithgareddau a gynigir. Gwneir defnydd da iawn o adnoddau'r campws megis Theatr y Gromlech a'r ganolfan hamdden.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol, glir sydd yn gosod ffocws pendant ar godi safonau a chyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae'r weledigaeth hon wedi ei seilio ar gynnig cyfleoedd addysgol ac allgyrsiol symbylus i bob disgybl er mwyn eu galluogi i ddatblygu yn ddinasyddion dwyieithog, diwylliedig sydd yn meddu ar fedrau bywyd gwerthfawr. Trwy ei arweinyddiaeth synhwyrol a chynhwysol, mae'n cyfathrebu'r amcanion hyn yn huawdl i holl gymuned yr ysgol. Mae staff yr ysgol yn deall ac yn parchu'r weledigaeth hon ac yn arddel cenhadaeth yr ysgol, sef 'Cofia ddysgu byw'.

Cefnogir y pennaeth yn fedrus gan aelodau'r tîm arwain. Mae eu cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir a'u dyrannu'n ddoeth, yn unol â'u cryfderau a'u harbenigeddau. Mae'r ysgol yn coleddu diwylliant o arweinyddiaeth ddosranedig effeithiol ymhlith y staff. Mae hyn yn golygu bod llawer o arweinwyr eraill o blith y staff yn cydweithio'n llwyddiannus i roi cyfeiriad i'r ysgol.

Mae'r trefniadau rheoli llinell yn gydlynus ac mae llinellau atebolrwydd yn eglur i bob aelod o staff. Mae calendr clir a strwythur penodol i gyfarfodydd rheolaethol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn ymdrin â data'n hyderus ac, o ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth briodol am safonau yn eu meysydd. Mae llawer o arweinwyr canol yn rheoli eu timau'n effeithiol. Mae strwythur clir i'w cyfarfodydd ac maent yn darparu arweiniad a chyfeiriad pendant i'r athrawon maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad a rhoddir ffocws cryf ar godi safonau ac ansawdd yr addysgu. Mae'r ysgol yn disgwyl i'w staff gymryd cyfrifoldeb llawn am eu datblygiad eu hunain. Mae cydweithio er mwyn rhannu arferion da yn cael ei annog y tu mewn a thu allan i'r ysgol. Mae arweinwyr yn ymateb yn gyflym mewn achosion lle mae staff yn tanberfformio ac yn cynnig arweiniad pwrpasol a buddiol iddynt wella.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn rymus i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys mentrau ysgol gyfan llwyddiannus er mwyn ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a blaengaredd arloesol o ran datblygu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o waith yr ysgol ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn brofiadol iawn ac yn cynnig arweiniad a chyngor gwerthfawr i'r ysgol mewn nifer o feysydd pwysig. Mae hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau doeth sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau dysgu ac addysgu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol brosesau trylwyr er mwyn sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu, lefelau lles a pherfformiad academaidd y disgyblion.

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau defnyddiol i gasglu gwybodaeth uniongyrchol am safonau ac ansawdd yr addysgu a'r asesu, sy'n cynnwys casglu barnau rhieni a disgyblion. Mae arweinwyr ar bob lefel yn arsylwi gwersi'n drylwyr ac yn craffu ar waith y disgyblion yn rheolaidd. Mae'r gwaith hwn yn arwain at gofnodion defnyddiol sydd yn adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn modd gwrthrychol a chlir.

Mae bron pob un o'r adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn cynnwys gwerthusiad manwl o ddata perfformiad, safonau yn y gwersi ac agweddau ar eu darpariaeth. Fodd bynnag, mae ychydig o'r rhain yn rhoi gormod o bwyslais ar gymariaethau yn erbyn cyfartaleddau Cymru gyfan a'r awdurdod lleol yn hytrach na'r safonau mewn ysgolion tebyg eraill.

Cynhwysa'r rhan fwyaf o'r cynlluniau datblygu adrannol strategaethau defnyddiol sy'n dynodi cyfrifoldebau i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn eu hadroddiadau adrannol. Ceir ynddynt gostau a therfyniadau amser priodol i gyflawni nodau'r adrannau hyn. Fodd bynnag, nid yw ychydig ohonynt yn cynnwys targedau sydd yn ddigon uchelgeisiol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn cynnwys arfarniad cywir o'r rhinweddau ac unrhyw wendidau a welwyd wrth graffu ar waith ac arsylwi gwersi. Ceir dadansoddiad manwl o ddata perfformiad ac, ar y cyfan, arfarniad teg o'r perfformiad hwn. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae'r arfarniadau yn yr adroddiad yn rhy hael. Yn ogystal, nid yw'r ysgol wedi adnabod ychydig iawn o'r meysydd i'w gwella.

Mae cysylltiad agos rhwng y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu a chynlluniau gwella'r ysgol gyfan. Mae'r ddogfennaeth hon yn cynnwys blaenoriaethau addas ar gyfer gwelliant a strategaethau defnyddiol i gyflawni nodau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o'r targedau yn ddigon uchelgeisiol ac nid oes cyfeiriad i ychydig iawn o agweddau y mae angen eu datblygu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gydag ystod eang o bartneriaid sydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella safonau cyrhaeddiad a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu perthynas agos a chynhaliol gyda rhieni. Mae'n cynorthwyo rhieni i gefnogi gwaith eu plant, er enghraifft drwy gynnig adnoddau gwaith cartref defnyddiol ar eu gwefan a chynnal nosweithiau rhieni i drafod materion addysgol o bwys.

Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n agos ag athrawon yr ysgolion cynradd partner i ddatblygu a chydblethu eu strategaethau addysgu llythrennedd a rhifedd. Ceir ystod eang o weithgareddau pontio defnyddiol, er enghraifft 'y Diwrnod Hwyl', 'y Diwrnod Dinasyddiaeth' a chwrs preswyl yng ngwersyll Llangrannog. O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, mae'r disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth drosglwyddo o Flwyddyn 6.

Mae'r ysgol yn cydweithio â cholegau lleol er mwyn cynnig opsiynau perthnasol i'w disgyblion, er enghraifft peirianneg amaethyddol. Mae trefniadau priodol ganddynt i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hon.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos â darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd buddiol iawn i athrawon fyfyrio ar agweddau ar addysgu a datblygu eu medrau proffesiynol.

Ceir partneriaethau helaeth ag asiantaethau allanol sydd yn cefnogi lles y disgyblion. Yn ychwanegol, mae cysylltiad gwerthfawr â phrifysgol Harvard sydd yn cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu ei systemau i adnabod anghenion a chefnogi disgyblion bregus.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan amlwg ym mywyd y gymuned leol, er enghraifft drwy gynnal ffair Nadolig a thrwy her gymunedol y Fagloriaeth Cymreig. Ceir cysylltiadau defnyddiol â mentrau a busnesau lleol i gynnig profiadau gwerthfawr fel ffug-gyfweliadau a chystadlaethau siarad cyhoeddus.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth a'r swyddog cyllid yn rheoli adnoddau a chyllideb yr ysgol yn ddoeth. Mae hyn yn cael ei fonitro'n agos gan y pwyllgor cyllid ac adeiladau. Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm a cheir hyfforddiant a chefnogaeth werthfawr ar gyfer yr ychydig iawn o athrawon sydd yn addysgu y tu allan i'w meysydd arbenigol. Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth wedi ei ddatblygu'n gelfydd iawn ac mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu darpar arweinwyr uchelgeisiol.

Mae staff ar draws yr ysgol yn gwneud defnydd buddiol o'u haelodaeth o amrediad eang iawn o rwydweithiau ymarfer proffesiynol. Mae hyn yn digwydd yn fewnol, fel clwstwr, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae llawer o staff wedi datblygu arbenigedd gwerthfawr mewn meysydd amrywiol dros amser ac mae athrawon yn elwa yn fawr ar eu harweiniad a'u gwybodaeth. Mae hon yn nodwedd eithriadol o waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad grymus ar gyfer holl staff yr ysgol ac mae'r amcanion yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n synhwyrol ar gyfer gwariant y Grant Amddifadedd Disgyblion ac mae hyn yn cyfrannu at ddeilliannau gwell i ddisgyblion bregus. Mae cwricwlwm y chweched dosbarth yn gost effeithiol.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**6684064 - YSGOL Y PRESELI**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 902 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.7 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=10%) |

**Cyfnod allweddol 3**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2016) | Cyfartaledd Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | | |
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 9** | 154 | 175 | 155 | 154 | | |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 92.9 | 94.3 | 90.3 | 95.5 | 93.1 | 85.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 | | |
| **Saesneg** | | | | | | |
